Yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai

Workstep

Cyflwyniad i Gyflogaeth â Chymorth

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch 01267 228925

Gellir cyrchu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor ar y wefan ganlynol: www.sirgar.gov.uk

SCH10/24/07/b

Cynnwys

	Rhif y dudalen
Beth yw Workstep?	4
Sut y gall Workstep fod o gymorth i mi?	4
Sut y gallaf fod yn rhan o'r rhaglen Workstep?	5
Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn dod o hyd i swydd?	6
Rôl y Cyflogwr o ran y rhaglen Workstep	7
Cyfrinachedd	8
Cwynion, Sylwadau, a Chanmoliaeth	9
Cyfleoedd Cyfartal	9
Cysylltiadau	10 -13
Ffurflen gais	14

Beth yw Workstep?

Mae pobl ag anableddau yn aml yn wynebu rhwystrau cymhleth wrth geisio dod o hyd i swydd a/neu gadw swydd. Mae Workstep, Rhaglen Cyflogaeth â Chymorth a gynhelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnig gwasanaeth sy'n helpu pobl anabl i ddychwelyd i fyd gwaith neu'n rhoi cymorth iddynt ddod o hyd i swyddi.

Sut y gall Workstep fod o gymorth i mi?

Mae'r rhaglen Workstep wedi ei llunio i bobl anabl sy'n gymwys ar ei chyfer yn ôl asesiad gan Ymgynghorwyr Cyflogi'r Anabl, sy'n gweithio mewn Canolfannau Gwaith lleol fel arfer. Rydych yn gymwys ar gyfer Workstep os ydych yn anabl yn ôl diffiniad Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, ac os:

- Ydych yn cael Budd-dâl Analluogrwydd (yn cynnwys Lwfans Anabledd Difrifol a Chymhorthdal Incwm), **neu**
- Yn cael Lwfans Ceisio Gwaith a/neu Gredydau Yswiriant Gwladol yn unig am 6 mis neu ragor, **neu**

- Yn rhywun sydd wedi bod yn rhan o'r Rhaglen Cyflogaeth â Chymorth o'r blaen, **neu**
- Yn gweithio ar hyn o bryd ond mewn perygl o golli eich swydd o ganlyniad i anabledd neu salwch, **neu**
- Yn gadael addysg a hyfforddiant amser llawn a heb fod yn gymwys ar gyfer Budd-dâl Analluogrwydd.

Sut y gallaf fod yn rhan o'r rhaglen Workstep?

Ar ôl i'r Ymgynghorwr Cyflogi'r Anabl roi gwybod i chi eich bod yn gymwys ar gyfer y rhaglen, bydd yn cyflwyno eich manylion i'r rhaglen Workstep - gelwir hyn yn ‘atgyfeiriad’.

Bydd Swyddog Datblygu Workstep yn gweithio'n agos gyda chi ac yn llunio pecyn cymorth i ddiwallu eich anghenion ac i'ch helpu i ddod o hyd i'r swydd iawn ar eich cyfer.

Dylai'r swyddi fod yn rhai parhaol gan gynnig o leiaf chwe mis o waith, a dylid gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

Ar ôl i'r swydd iawn gael ei phennu, byddwch yn cael cymorth a chyngor parhaus a fydd yn eich helpu i aros mewn gwaith ac i ddatblygu eich sgiliau a'ch galluoedd.

Mae enghreifftiau o'r gwaith yn cynnwys swyddi gydag awdurdodau lleol, gyda'r Heddlu, gydag ymddiriedolaethau'r GIG, ym maes arlwyo, ym myd amaeth, ac yn y sector adwerthu. Ein bwriad yw denu rhagor o gyflogwyr i'r cynllun er mwyn i ni allu cynnig dewis helaethach byth o opsiynau ym myd gwaith.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn dod o hyd i swydd?

Llunnir Cynllun Datblygu unigol ar eich cyfer, a fydd yn cynnwys hyfforddiant swydd a monitro rheolaidd. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd lle gallwch drafod eich cynnydd â'ch Swyddog Datblygu, ynghyd â materion eraill ynghylch gwaith.

Ar ôl i'r swydd iawn gael ei phennu, byddwch yn cael cymorth a chyngor parhaus a fydd yn eich helpu i aros mewn gwaith **ac** i ddatblygu eich sgiliau a'ch galluoedd. Gan gydweithio â chyflogwyr ac Ymgynghorwyr Cyflogi'r Anabl, byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac yn cynnig y gwasanaeth sy'n diwallu eich anghenion personol orau.

Rôl y Cyflogwr yn y rhaglen Workstep

Bydd y Swyddog Datblygu yn cydweithio'n agos â chyflogwyr er mwyn sicrhau bod pobl yn cael swyddi sy'n addas ar eu cyfer. Dyletswydd y cyflogwr yw darparu'r gwaith, y gweithle, a'r offer, ynghyd â'r hyfforddiant, yr oruchwyliaeth, neu'r rheolaeth i ddatblygu'r sgiliau a'r rhinweddau personol sydd eu hangen er mwyn i chi gamu ymlaen, os yw'n bosibl, i gyflogaeth heb gymorth.

Bydd y cyflogwr yn talu'r un cyflog i chi a fyddai'n cael ei dalu i rywun nad ydyw'n anabl ond sy'n gwneud yr un gwaith neu waith tebyg. Bydd y telerau a'r amodau yn unol â'r ddeddfwriaeth gyflogi. O ganlyniad, dylai'r cyfraniadau gan gyflogwyr gynnwys:

- Yswiriant Cenedlaethol - mae cyflogwyr yn gyfrifol am wneud cyfraniadau yswiriant gwladol. Telir yn ôl yr un raddfa ag a delir i weithwyr eraill (wedi ei chontractio allan neu heb ei chontractio allan).
- Pensiwn – dylai cleientiaid Workstep gael eu cynnwys yn y trefniadau pensiwn a wneir gan y

cyflogwr cyfreithiol, a hynny yn ôl yr un telerau â gweithwyr eraill.

- Tâl Salwch Statudol – dylai'r cyflogwr cyfreithiol weithredu polisi ei sefydliad mewn perthynas â thaliadau salwch ar gyfer unrhyw gyfnod o absenoldeb. Rhaid i'r Tâl Salwch Statudol gael ei dalu yn unol â chanllawiau presennol Cyllid y Wlad.

Ar ôl y rhagarweiniad cychwynnol, y cyflogwr sy'n gyfrifol am eich rheoli a'ch goruchwylio o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y cyflogwr yw sicrhau y rhoir gwybod i weithwyr am reoliadau iechyd a diogelwch ei sefydliad.

Cyfrinachedd

Mae llawer o'r wybodaeth yr ydych yn ei rhannu â ni neu a ddarperir gan eraill ar eich rhan, yn wybodaeth gyfrinachol. Rydym yn parchu hyn ac rydym yn sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei chadw'n ddiogel, yn breifat, a dim ond yn cael ei defnyddio i'n helpu ni i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnoch. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i'r diben a gytunwyd yn unig, a'r staff sy'n darparu gwasanaethau ichi fydd yr unig rai a fydd yn cael gweld eich ffeil.

Weithiau, byddwn yn cael cais am rannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol eraill. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu'r wybodaeth hon yn arferol heb roi gwybod ichi a chael eich caniatâd yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Fodd bynnag, bydd adegau pan fydd yn ofynnol dan y gyfraith inni ddatgelu gwybodaeth heb eich caniatâd, er enghraifft:

- Datgelu i'r Heddlu neu'r Llysoedd wybodaeth sy'n ymwneud â materion cyfreithiol neu droseddol difrifol, neu
- I osgoi niwed difrifol i chi neu i eraill.

Cwynion, Sylwadau, a Chanmoliaeth

Mae Workstep wedi ymroi i Ofal Cwsmeriaid. Ac os byddwch ar unrhyw adeg yn anfodlon ar ein gwasanaethau mae gennych hawl i gwyno. Yn y lle cyntaf gallwch siarad â'r Swyddog Datblygu neu â Rheolwr y Gwasanaeth. Fel arall, gallwch gysylltu â'n Swyddog Cwynion ym Mhencadlys yr Adran, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin. Rhif ffôn: 01267 228835. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut i wneud cwyn, gofynnwch am gopi o'r daflen 'A ydych yn fodlon ar eich gwasanaethau?'.

Cyfleoedd Cyfartal

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

Os ydych yn anabl, neu os oes gennych anabledd, mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ei gwneud yn

anghyfreithlon i wahaniaethu yn eich erbyn o ran gwaith yn ogystal â mewn sefyllfaoedd eraill. Mae'r Ddeddf yn golygu ei fod yn anghyfreithlon i gyflogwr wahaniaethu yn eich erbyn oherwydd eich anabledd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gan eich Swyddog Datblygu ar gyfer y rhaglen Workstep, ynghyd â'r Ymgynghorwyr Cyflogi'r Anabl yn y Ganolfan Waith ac yn y Ganolfan Byd Gwaith.

Cysylltiadau

Gobeithio bod y wybodaeth hon wedi eich annog i ystyried manteision defnyddio'r gwasanaeth. Mae croeso i chi gysylltu â ni'n uniongyrchol os hoffech gael rhagor o wybodaeth. Gellir cael gwybodaeth a chyngor ychwanegol gan y sefydliadau isod.

Workstep

Uned 13, Ffordd Anthony
Ystâd Ddiwydiannol Cillefwr
Tre Ioan
Caerfyrddin
SA31 3RD

Rhif ffôn: 01267 231991/231955

E-bost: Workstep@sirgar.gov.uk

Oriau'r swyddfa yw dydd Llun tan ddydd Iau o 9a.m. tan 4.30p.m., ac ar ddydd Gwener o 9a.m tan 4.30p.m.

Ymgynghorwyr Cyflogi'r Anabl

Gellir cysylltu ag Ymgynghorwyr Cyflogi'r Anabl yn y cyfeiriadau canlynol. Mae'r Ymgynghorwyr Cyflogi'r Anabl yno i wrando, ac i roi gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen ar y sawl sy'n chwilio am swydd ac ar y cyflogwr hefyd.

Canolfan Byd Gwaith Llanelli
58 Stryd Stepney
Llanelli
SA15 3TN

Rhif ffôn: 01554 874300

Canolfan Byd Gwaith Rhydaman
Llys Afon
Stryd y Parc
Rhydaman
SA18 3NT

Rhif ffôn: 01269 815500

Canolfan Byd Gwaith Caerfyrddin
Stryd Ioan
Caerfyrddin
SA31 1QT

Rhif ffôn: 01267 323000

Anabledd Cymru

Y gymdeithas genedlaethol o grwpiau anabledd sy'n ymdrechu dros ennill hawliau a chyfleoedd cyfartal, ynghyd â rhoi dewis, i holl bobl anabl Cymru.

Rhif ffôn: 02920 887325

www.disabilitywales.org

Fforwm y Cyflogwyr ar gyfer Anabledd

Fforwm y Cyflogwyr ar gyfer Anabledd yw corff mwyaf blaenllaw'r byd sydd gan gyflogwyr o ran hoelio sylw ar effaith anabledd ar fusnesau. Cyllidir a rheolir y fforwm gan dros 400 o aelodau, ac rydym yn ei gwneud yn haws i recriwtio a chadw gweithwyr anabl ac i wasanaethu cwsmeriaid anabl.

Rhif ffôn: 020 7403 3020

www.employers-forum.co.uk

Y Comisiwn Hawliau Anabledd

Gallwch gael gwybodaeth yma am y Comisiwn Hawliau Anabledd. Nod y Comisiwn Hawliau Anabledd: Cael cymdeithas lle gall yr holl bobl anabl gyfrannu'n llawn fel dinasyddion cyfartal

Rhif ffôn: 0207 712 2171

www.drc-gb.org/

Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu

Bwriad y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu yw hybu gwelliannau mewn sefydliadau ac ym maes gwaith drwy feithrin gwell cysylltiadau gwaith. Rydym yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, cyngor annibynnol, a hyfforddiant o safon, ac rydym yn gweithio gyda chyflogwyr a gweithwyr i ddatrys problemau a gwella perfformiad.

Rhif ffôn: 02920 762636

www.acas.gov.uk

Os hoffech gael gwybod rhagor am y rhaglen Workstep, ffoniwch 01267 231991 neu cwblhewch y ffurflen ar y dudalen nesaf a byddwn yn cysylltu â chi. Dylid dychwelyd y ffurflen i'r cyfeiriad isod:

Workstep
Uned 13, Ffordd Anthony
Ystâd Ddiwydiannol Cillefwr
Tre Ioan
Caerfyrddin
SA31 3RD

Workstep

Cais am gymorth gan y rhaglen Workstep

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

_____

Rhif Ffôn: _____

Sut y gall Workstep fod o gymorth i chi? _____

_____

Pa fath o waith rydych yn chwilio amdano? _____

_____

_____

A ydych wedi cael eich cofrestru gydag Ymgynghorwr Cyflogi'r Anabl?

Ydw / Nac ydw (dileër fel y bo'n briodol)

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council